20/06/2025

Annwyl

**ATISN 24726: Cais am wybodaeth am hysbysiadau o ddigwyddiadau difrifol gan ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae**

**Y wybodaeth y gofynnwyd amdani**

Diolch am eich cais a dderbyniwyd gennym ar 15/05/2025.

Gwnaethoch ofyn am y canlynol:

Data ar nifer y digwyddiadau difrifol y rhoddwyd gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru amdanynt gan ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae, wedi'u categoreiddio yn ôl sir a'r math o wasanaeth lle y bo'n bosibl.

Gofynnwyd am y data ar gyfer y blynyddoedd canlynol:

- 2023-2024
- 2022-2023
- 2021-2022
- 2020-2021
- 2019-2020

**Ein hymateb**

Mae'r wybodaeth rydych wedi gwneud cais amdani wedi'i hamgáu.

Gwnaethoch gadarnhau y dylai'r digwyddiadau difrifol rydych yn cyfeirio atynt gynnwys damweiniau ac anafiadau difrifol neu salwch ymhlith plant yn y gwasanaeth, ac unrhyw ddigwyddiadau eraill o natur ddifrifol fel y cyfeiriwyd atynt mewn data o Loegr a oedd wedi'u cynnwys mewn erthygl newyddion y gwnaethoch gyfeirio ati yn eich cais. Mae'n bwysig nodi nad ydym yn siŵr a yw'r wybodaeth gan Ofsted yn cyfeirio at feithrinfeydd yn unig neu at bob gwasanaeth gofal plant a chwarae fel y gwnaethoch chi ofyn amdani.

Mae'r data sydd wedi'u hamgáu yn cynnwys yr hysbysiadau perthnasol a gyflwynwyd i AGC gan ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae.

Rydym wedi darparu cyfanswm nifer yr hysbysiadau perthnasol a gyflwynwyd i AGC yn ystod y cyfnod o bum mlynedd dan sylw. Digwyddiadau lefel isel yw llawer o'r digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt i AGC ac nid ydynt o natur ddifrifol. Bydd arolygwyr yn asesu'r digwyddiadau er mwyn penderfynu ar unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen.

Felly, rydym wedi darparu'r data ar nifer y digwyddiadau hyn y penderfynodd AGC eu bod yn ddifrifol ac felly bod angen cymryd rhai camau gweithredu mewn ymateb iddynt, yn unol â'ch cais. Mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn cynnwys, cynnal arolygiad yn gynt, atgyfeirio'r wybodaeth at dîm diogelu'r awdurdod lleol perthnasol neu atgyfeirio'r gwasanaeth at lwybr gorfodi AGC. Mewn rhai achosion, bydd mwy nag un o'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cymryd ar yr un pryd. Dylid nodi, yn dilyn ymchwiliad a/neu arolygiad pellach, ei bod hi'n bosibl y byddwn yn penderfynu na wnaeth y digwyddiadau hyn ddigwydd neu na fyddant mor ddifrifol ag y nodwyd yn wreiddiol.

Yn 2019/2020, newidiodd AGC y ffordd roedd darparwyr yn cyflwyno hysbysiadau i ni. Gwnaethom hefyd newid categorïau'r penderfyniadau er mwyn i ni allu cyflwyno adroddiadau gwell ar y penderfyniadau a wnaed. Mae hyn yn esbonio'r gwahaniaeth yn y ffigurau rhwng 2019/2020 a'r blynyddoedd dilynol.

**Y camau nesaf**

Os na fyddwch yn fodlon ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

neu drwy e-bost i: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Fodd bynnag, nodwch na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes y byddwn wedi cwblhau ein proses adolygu mewnol ein hunain mewn perthynas â'r gŵyn honno.

Yn gywir,